Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr perchnogion

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion gan Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru • Rhifyn 5 • Gorffennaf 2010

Cynnwys

Wedi dal y clwy'!

Phytophthora ramorum

Un filiwn o goed ac yn dal i gyfrif

Coetir sy'n werth sôn amdano

Astudiaeth achos CGG

Gwasanaeth ar-lein i berchenogion

Peidiwch ag aros am y gyfradd newydd!

Arolwg o goetiroedd fferm

Y drefn gwyno

Manylion cysylltu

Rhifyn nesaf Ionawr 2011

Mae'r rhifynnau presennol ac ôl-rifynnau ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru:
www.forestry.gov.uk/wales

Wedi dal y clwy'!

Fe ddaliodd Richard a Sarah Hayes, sy'n byw ger Llanfair Caereinion ym Mhowys, y clwyf plannu coed 25ain mlynedd yn ôl pan oeddynt yn byw yn Swydd Rhydychen. Meddai Richard, "Fe wnaethom ni i gychwyn blannu ardal fechan hanner erw o dir gyda choed brodorol cymysg pan oeddem ni'n byw yn Swydd Rhydychen, a 25 mlynedd yn ddiweddarach, pan oeddem ni'n symud i Gymru, roeddem yn gadael coedwig go iawn ar ein hôl. Roeddem wrth ein bod pan glywsom ni am y cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) sy'n cael ei redeg gan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r weithred o blannu coeden yn gadael rhywbeth i'r dyfodol. Bydd yr hyn sy'n ymddangos yn awr fel cae o ffyn wedi'i weddnewid o fewn cyfnod byr, a bydd yn ychwanegu at yr harddwch a'r amrywiaeth, yn creu cynefinoedd bywyd gwyllt newydd, ac yn cyfrannu yn ei ffordd fach ei hun at gydbwyso effeithiau'r allyriadau carbon sy'n cael eu creu gan ddyn."

Cafodd hyd at 1.87 hectar o goed llydanddail sy'n frodorol i'r safle, coed derw ac ynn yn bennaf, eu plannu ganddynt ddechrau 2010, a bydd y 2,400 o goed ifanc yn cyfrannu at ein targed o blannu rhagor o goetiroedd newydd yng Nghymru.

Mae Richard a Sarah hefyd wedi plannu gweirglodd o flodau gwyllt ac wedi adfer pwll, a fydd yn gynefin ardderchog arall i fywyd gwyllt.

Mae CGG yn awyddus i ariannu mwy fyth o waith plannu y gaeaf nesaf. Os oes gennych chi dros 0.25 hectar o dir yr hoffech ei blannu, neu goetiroedd presennol yr hoffech eu rheoli, gallwn helpu i ariannu eich cynllun.

"Mae'r weithred o blannu coeden yn gadael rhywbeth i'r dyfodol"

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Phytophthora ramorum

Cadarnhawyd achos o afiechyd coed a achosir gan Phytophthora ramorum (P. ramorum) yng nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ne Cymru ddiwedd Mai 2010.

Pathogen tebyg i ffwng yw P. ramorum, ac mae'n lladd y rhan fwyaf o'r coed y mae'n eu heintio. Fe'i canfuwyd ar goed llarwydd Japan yn ne-orllewin Lloegr y llynedd, a'r achosion a welwyd mewn coetiroedd yng Nghwm Afan ger Port Talbot, yn Nyffryn Garw ger Pen-y-bont ar Ogwr ac ym Mro Morgannwg yw'r rhai cyntaf i'w canfod ar goed llarwydd mewn rhannau eraill o Brydain Fawr.

Ar hyn o bryd, mae'r achosion a ganfuwyd yn ne Cymru yn effeithio'n unig ar goetiroedd a reolir gan Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n newid yn gyflym wrth i arolygon gael eu gwneud, ac mae'n debyg bod yr afiechyd wedi lledu'n ehangach.

Mae coetiroedd a reolir gan CCC yn agored i'r cyhoedd, ac mae'r arwyddion yn y mynedfeydd i'r coedwig yn dweud wrth ymwelwyr beth y mae angen iddynt ei wneud i helpu i gynnwys yr afiechyd, megis cadw at y llwybrau, cadw cŵn ar dennyn, glanhau eu hesgidiau a pheidio â mynd ag unrhyw blanhigion o'r goedwig.

Nid yw P. ramorum yn niweidiol i bobl nac anifeiliaid. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar sut i adnabod yr afiechyd a sut i helpu i'w atal rhag lledu yn **www.forestry.gov.uk/wales**

Un filiwn o goed ac yn dal i gyfrif

Er gwaethaf y gaeaf caletaf yn y DU ers dros 30ain mlynedd, mae perchenogion yng Nghymru wedi llwyddo i blannu dros filiwn o goed, diolch i gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mae ffermwyr, tyddynwyr a thirfeddianwyr preifat eraill i gyd wedi helpu i blannu hyd at 530 hectar (1309 erw) o goed. Mae'r coed wedi'u plannu 2 fetr oddi wrth ei gilydd, a byddent yn ymestyn o arfordir gogledd Cymru i arfordir de Cymru ac yn ôl.

A oes gennych chi goetir sy'n werth sôn amdano?

Rydym yn aml yn chwilio am astudiaethau achos CGG er mwyn cynnwys storïau amdanynt a lluniau ohonynt at ddibenion cyhoeddusrwydd. Os ydych chi wedi cael grant drwy CGG ac yn falch o'ch holl waith caled, boed yn waith plannu newydd neu reoli coetir, a fyddech cystal ag anfon e-bost at **alison.evans@forestry.gsi.gov.uk**

Trosi planhigfeydd masnachol ucheldirol Sbriws Sitka yn Goedwigoedd Gorchudd Di-dor (CCF) drwy CGG



Mae adroddiad Read, Combating Climate Change - A role for UK forests wedi tynnu sylw at sut y gall gorchudd di-dor fod yn arf defnyddiol ymhlith ein hystod o arfau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Daw hyn ar adeg amserol iawn i ddau goedwigwr Coedwigoedd Gorchudd Di-dor a Chynllunwyr Rheolaeth Coetiroedd Gwell i Gymru, sef Phil Morgan a Huw Denman, sy'n frwdfrydig dros orchudd di-dor a sut y caiff y dull amgen hwn o reolaeth coetiroedd ei addasu i roi buddion masnachol, amgylcheddol a chymdeithasol integredig a fydd yn gymorth i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r ddau, ar y cyd, yn rheoli Bryn Arau Duon, sef planhigfa 680 hectar yn ucheldir deheuol Cymru. Prynodd eu cleient yr eiddo ym 1998 fel uned unigol wedi'i hamgylchynu gan dir pori uchel a cheunentydd ysblennydd yn eu cysylltu â rhwydwaith o gaeau, cloddiau a choetiroedd llydanddail. Mae'r rhywogaethau yn cynnwys 86% o sbriws Sitka, 9% o gonwydd eraill, coed llarwydd a phinwydd camfrig yn bennaf a 5% o dir agored. Mae'r gymysgedd gymharol syml hon o rywogaethau wedi darparu buddion masnachol go iawn yng ngham sefydlu'r coetir sydd bellach yn datblygu nodweddion coedwig barhaus oherwydd teneuo mynych a gweithrediadau cwympo coed detholus. Mae'r dosbarthiad rhwystr gwynt yn amrywio rhwng 3 a 5, fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohoni wedi cael ei theneuo am y tro cyntaf gan fod y rhwydwaith traciau wedi'i ddatblygu i gyrraedd y lleoedd mwyaf anghysbell; mathau o safleoedd eithafol yn unig yr ystyrir nad ydynt yn gynhyrchiol ac y'u cynhwysir mewn cynllun graddol i adfer cynefinoedd. Nid yw natur fasnachol y goedwig wedi digalonni'r rheolwyr rhag datblygu nodweddion eraill yn y coetir. Mae gan Bryn Arau Duon olion archaeolegol sydd â chryn dystiolaeth iddynt a reolir yn dda fel nad yw gweithrediadau'r goedwig yn effeithio ar y safleoedd dynodedig; mae'r goedwig hefyd yn gartref i'r boblogaeth fwyaf o wiwerod coch yn ne Cymru a gofnodir ac sy'n cael eu monitro a lle maglir a dilëir y wiwer lwyd ymwthiol. Mae'r goedwig yn goetir wedi'i ardystio gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd.

Mae llawer o'r gwaith o newid y blanhigfa goed o'r un oed i orchudd di-dor wedi'i wneud â chymorth Cynllun Grant Coetiroedd (WGS) ac mae hyn bellach yn parhau o dan gynllun adfer CGG (Coetiroedd Gwell i Gymru). Mae nifer o swyddogion coetir wedi cysylltu â'r rheolwyr dros y blynyddoedd, ond mae gan Stuart Gray yn arbennig, a oedd yn y swydd pan oedd y datblygiadau cynnar o'r cynllun CGG ar waith, werthfawrogiad o'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef. Roedd ef yn gynorthwyol dros ben wrth sefydlu'r meini prawf ar gyfer penderfynu nodweddion fel CCF ac i ddod o hyd i gymhelliannau i ariannu gweithrediadau er mwyn bodloni targedau coedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhwydwaith traciau yn hanfodol i gyfyngu ar effeithiau amgylcheddol cynaeafu a heb gymorth gan CGG ni fyddai hyn mor eang; mae teneuo aneconomaidd o gellïoedd sydd angen ymyrraeth gynnar wedi'u cefnogi; plannu ymgyfoethogi ar gyfer amrywiaeth rywogaethau a chychwyn elfennau isdyfiant mewn strwythurau afreolaidd i gyd wedi'u gwneud yn bosibl, yn ogystal â'r rhaglen maglu gwiwerod er mwyn diddymu bygythiad y wiwer lwyd i fodolaeth y wiwer goch.

Mae CGG yn cynorthwyo ym Mryn Arau Duon i greu math newydd o goedwigaeth gynhyrchiol sydd â'r nod i gyflenwi'r farchnad bren â chyflenwad cynyddol o bren o ansawdd mewn dulliau cost-effeithiol ac ynni effeithlon er mwyn cynhyrchu llai o garbon, tra ar yr un pryd yn creu cynefinoedd gwell a mwy addasol sy'n cefnogi ein rhywogaethau sydd mewn perygl.

Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein i berchenogion

Os ydych eisiau dilyn cynnydd eich cynllun CGG neu wneud cais ar-lein ar ôl i'r gwaith gael ei wneud, gallwch fewngofnodi a chofrestru ar ein Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein i berchenogion.

Rhaid defnyddio ein gwefan i gofrestru ac, ar ôl i chi gwblhau proses gofrestru syml, unwaith-yn-unig, anfonir e-bost atoch yn cadarnhau eich enw defnyddiwr a chyfrinair, a fydd yn eich galluogi i fewngofnodi'n llwyddiannus i'r system ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i chi.

I gofrestru, gall perchenogion neu asiantiaid gael mynediad i wefan CCC drwy ddefnyddio'r cyswllt **www.eforestry.gov.uk**

Dewiswch **Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Arlein – i wneud cais am grant arlein** ac yna cliciwch y dewis **cliciwch yma i gofrestru**.

Bydd yn rhaid i chi yn awr ddefnyddio eich enw defnyddiwr a chyfrinair i fewngofnodi i'r system ac, er mwyn rhoi'r cyfrif ar waith, bydd yn rhaid i chi ffonio neu anfon e-bost at y tîm Gwasanaethau Technegol i'w hysbysu eich bod wedi sefydlu fel defnyddiwr newydd. Yna bydd y tîm yn eich cysylltu, fel perchennog, â'ch achos chi a byddwch yn gallu gweld manylion y cynllun yn llawn.

Cofiwch, os ydych yn cael unrhyw broblemau gyda'r drefn uchod, anfonwch e-bost at ein tîm Gwasanaethau Technegol **bww.ts@forestry.gsi.gov.uk** a chofiwch roi eich rhif ffôn.

Peidiwch ag aros am y gyfradd newydd!

Mae adolygiad ar y gweill i gyfraddau grant ar gyfer creu coetiroedd newydd. Er nad yw canlyniad yr adolygiad wedi cael ei gyhoeddi hyd yma, mae CCC yn rhagweld y bydd cyfraddau grant yn codi.

Er mwyn annog tirfeddianwyr i barhau i blannu coetiroedd newydd, mae CCC wedi cyhoeddi y bydd pob cais newydd ar gyfer creu coetir a wneir o'r 1af o Ebrill 2010 ymlaen (neu sydd eisoes wedi'i gyflwyno) yn gymwys i dderbyn y cyfraddau grant diwygiedig.

Bydd y cyfraddau newydd hefyd yn berthnasol i gynlluniau CGG sydd eisoes wedi'u cymeradwyo.

"Rydym yn gobeithio y bydd y penderfyniad hwn yn golygu y bydd tirfeddianwyr yn dal i wneud ceisiadau er mwyn gallu osgoi prysurdeb mawr yn ddiweddarach yn y flwyddyn," meddai Richard Siddons, y Pennaeth Grantiau a Rheoliadau. "Gall goetiroedd gynnig cymaint o fanteision i dirfeddianwyr, ac rydym yn eu hannog i edrych ar y grantiau a'r cyngor arbenigol di-dâl sydd ar gael drwy'r cynllun CGG."

Bydd y cyfraddau plannu newydd yr un fath, pa un a ydych yn rhan o'r cynllun Glastir ai peidio.

Arolwg o Goetiroedd Fferm

Yn 2009, comisiynodd CCC arolwg i gasglu barn ffermwyr am eu coetiroedd a'r grantiau coetir a gynigir gennym. Mae'r arolwg wedi darparu gwybodaeth werthfawr ar ba mor effeithiol yw ein grantiau coetir i ffermwyr, a sut y gallwn eu gwella.

Cafodd 264 o ffermwyr eu cyfweld gan Wavehill Consulting ar ran y Comisiwn Coedwigaeth, ac roedd y ffigur hwn yn cynnwys 100 o ffermwyr nad oeddynt erioed wedi gwneud cais am grant, er bod ganddynt goetiroedd ar eu ffermydd. Gellir lawrlwytho'r arolwg cyfan o dudalen gartref Grantiau a Rheoliadau. **www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5z8jcr**

Y drefn gwyno

Mae'r cynllunwyr rheoli a'r arbenigwyr wedi arwyddo cod ymarfer. Os ydych yn anhapus gyda pherfformiad cynlluniwr neu arbenigwr, dylech ddilyn y broses gwyno y gellir dod o hyd iddi ar wefan CCC dan cwynion ac anghydfodau CGG

Bydd cwynion a wneir yn erbyn cynlluniwr neu arbenigwr yn cael eu bwydo i'r broses 'Cynnal Safonau' a chymerir camau priodol gan ddefnyddio'r canllawiau a amlinellir yn y broses.

FCW5737 6/10

Manylion cysylltu

Ymholiadau cyffredinol, ffoniwch: neu ewch i:	**0300 068 0300** **www.forestry.gov.uk/wales**
Ymholiadau technegol, anfonwch e-bost:	**bww.ts@forestry.gsi.gov.uk**
Gwasanaeth Grantiau a Thrwyddedau Ar-lein (GLOS):	**www.eforestry.gov.uk**
Awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol:	**alison.evans@forestry.gsi.gov.uk**

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Argraffwyd y ddogfen hon ar Revive 50:50 Offset, papur wedi'i ailgylchu a gynhyrchir drwy ddefnyddio 50% o wastraff adferedig a 50% ffibr pren gwyryf. FSC SGS-COC-0912

Mae coetiroedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi cael eu hardystio yn unol â rheolau Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd SGS-FM/COC-0358. © 2006 Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd AC